**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 1 GORFFENNAF 2019**

**AELODAU**

* Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
Y Cynghorydd Michael Dixon, Is-Gadeirydd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd | | Bryan Apsley | Y Cynghorydd | | Beverley Parry-Jones |
| " | * | I David Bithell, MBE | " | | Paul Pemberton |
| " | * | Dana Davies | " | | John Phillips |
| " | | Frank Hemmings | " | | John Pritchard |
| " | | Gwenfair Jones | " | | Paul Roberts |
| " | | Paul Jones | " | | Paul Rogers |
| " | * | David Maddocks | " | | Graham Rogers |
| " | * | Tina Mannering | " | * | Andy Williams |
| " | | John McCusker | | | |

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Robert Walsh, R Alun Jenkins, Carrie Harper, Marc Jones, Mike Davies, Adrienne Jeorrett, T Alan Edwards, Nigel Williams a Barrie Warburton

**24 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I David Bithell, Dana Davies, David Maddocks, Tina Mannering ac Andy Williams.

**25 CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019 ac 14 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD - Llofnodi Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Mehefin ac 14 Mehefin fel cofnod cywir.**

**26 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI**

Atgoffwyd aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Erthygl 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem 4 ar y Rhaglen – Ceisiadau Rheoli Datblygu
Peter Douthwaite, Swyddog Priffyrdd - Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2018/0673 – Roedd ei deulu a'i ffrindiau'n byw ger y safle.

Gadawodd y Swyddog y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth

na'r bleidlais.

Y Cynghorydd Paul D Jones - Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu - Cais Rhif P/2018/0673 - Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Acton. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r bleidlais.

## 27 CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/12/19) i benderfynu ar y ceisiadau cynllunio rhestredig. Tynnwyd sylw at yr atodiad i'r adroddiad lle'r oedd hynny'n berthnasol.

## 28 CAIS RHIF: P/2018/0666 – PRIFYSGOL GLYNDŴR, FFORDD YR WYDDGRUG, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Rhoddodd y Swyddog Rheoli Datblygu amlinelliad manwl o'r ceisiadau a oedd yn ffurfio rhan o'r pecyn cyffredinol a gyflwynwyd gan y Brifysgol. Cadarnhaodd y Swyddog fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Nodwyd y byddai cynnig i wneud gwelliannau i gyffordd Lôn Crispin yn cael ei ailgyflwyno pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Cododd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Marc Jones) nifer o bryderon yn cynnwys graddfa'r datblygiad yn ymwneud â'r naw cais a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, y cyllid ar gyfer y datblygiad ynghyd â'r goblygiadau o ran traffig, parcio a chynaliadwyedd.

Cafwyd trafodaeth â'r Aelodau Ward cyfagos a Chynghorwyr eraill yn codi pryderon mewn perthynas â'r materion traffig a pharcio yn ogystal â phryderon am gludiant cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

## 29 CAIS RHIF: P/2018/0667 - PRIFYSGOL GLYNDŴR, FFORDD YR WYDDGRUG, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

## 30 CAIS RHIF: P/2018/0668 – COLEG CELF PRIFYSGOL GLYNDŴR, 49 - 51 STRYT Y RHAGLAW, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Siaradodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Marc Jones) am y cais gan fynegi pryderon am y trefniadau parcio.

Yn ogystal, tynnodd yr Aelodau eraill sylw at y problemau traffig a pharcio posibl yn cynnwys mannau parcio i bobl anabl a lleoliad y gilfan. Roeddent hefyd yn bryderus am effaith weledol y dyluniad.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**31 CAIS RHIF: P/2018/0669 - COLEG CELF PRIFYSGOL GLYNDŴR, 49 - 51 STRYT Y RHAGLAW, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**32 CAIS RHIF: P/2018/0670 - COLEG CELF PRIFYSGOL GLYNDŴR, 49 - 51 STRYT Y RHAGLAW, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**33 CAIS RHIF: P/2018/0671 - PRIFYSGOL GLYNDŴR, FFORDD PLAS COCH, WRECSAM**

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Mynegodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Marc Jones) bryderon mewn perthynas â pharcio a thagfeydd ac fe ategwyd y pryderon hyn gan Aelodau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**34 CAIS RHIF: P/2018/0672 – TIR I'R GORLLEWIN O LÔN CRISPIN, WRECSAM**

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**35 CAIS RHIF: P/2018/0673 – TIR I'R GOGLEDD O FFORDD HOLT, WRECSAM**

*(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau a Swyddogion â'r eitem hon yng Nghofnod 7 uchod).*

Siaradodd asiant yr ymgeisydd o blaid y cais.

Siaradodd preswylydd lleol yn erbyn y cais.

Cododd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Mike Davies) bryderon am y golled bosibl o gae chwaraeon a chae hamdden lleol a phryderon mewn perthynas â phriffyrdd.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryderon am ddiffyg man agored yn yr ardal a phroblemau priffyrdd.

**PENDERFYNWYD – y dylid GWRTHOD rhoi caniatâd.**

**Rhesymau**
Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli cae chwarae mewn ardal heb ddarpariaeth o'r fath. Gan nad oes darpariaeth arall o fantais cymunedol cyfwerth wedi'i sicrhau, byddai colled o'r fath yn niweidiol i'r amwynder a gynigir i'r gymuned, yn groes i bolisi CLF4 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam a Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y traffig ychwanegol a gynhyrchir o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gylchfan ger dafarn y Greyhound ar Ffordd Holt, sydd eisoes yn gweithredu tu hwnt i gapasiti ei ddyluniad. Byddai caniatáu'r datblygiad yn groes i Bolisi GDP1 (d) Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

**36 CAIS RHIF: P/2018 /0674 – TIR I'R GOGLEDD O FFORDD GATEWEN, NEW BROUGHTON, WRECSAM**

Siaradodd asiant yr ymgeisydd o blaid y cais.

Siaradodd preswylydd lleol yn erbyn y cais.

Siaradodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd T Alan Edwards) yn erbyn y cais.

**PENDERFYNWYD – y dylid GWRTHOD rhoi caniatâd.**

**Rhesymau**

Ystyrir y Cyngor y byddai'r traffig ychwanegol a gynhyrchir o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn achosi effaith andwyol sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Bydd hyn yn arwain at broblemau ciwio sylweddol ar gyffordd y B5433 Ffordd Gatewen â Ffordd y Bers ( B5101 ) a chylchfan Ffordd y Bers (G) B5101 Lôn Rhyd Broughton / Ffordd y Bers (Gorllewin) yn ystod amseroedd prysur yn y bore a'r prynhawn. Byddai caniatáu'r datblygiad yn groes i Bolisi GDP1 (d) Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Mae'r datblygiad arfaethedig y tu allan i derfynau aneddiadau diffiniedig ac yn cynrychioli datblygiad amhriodol ar gyfer safleoedd o fewn Rhwystrau Glas. Byddai caniatáu'r datblygiad felly yn mynd yn groes i Bolisïau PS1 ac EC1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

**37 CAIS RHIF: P/2018/0861 – TIR GERLLAW I HEOL Y PARC, COEDPOETH, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**38** **CAIS RHIF: P/2019/0054 - MEITHRINFA DDYDD SCALLYWAGS, BRIDGE ROAD, YSTÂD DDIWYDIANNOL WRECSAM, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**39** **CAIS RHIF: P/2019/0141 – TIR AR OCHR OGLEDDOL RHODFA'R ORSAF, Y WAUN, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**40** **CAIS RHIF: P/2019/0246 - GAMFORD HOUSE, LÔN GAMFFORD, YR ORSEDD, WRECSAM**

Siaradodd asiant yr ymgeisydd o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD - GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**41** **CAIS RHIF: P/2019/0254 - 18 HEULFAN WAY, GWERSYLLT, WRECSAM**

Siaradodd preswylydd yn erbyn y cais.

Mynegodd yr Aelod Lleol bryderon mewn perthynas â defnydd yr eiddo.

**PENDERFYNWYD - GOHIRIO'R cais er mwyn caniatáu i'r Tîm Gorfodi archwilio ei ddefnydd honedig fel tŷ amlfeddiannaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar 29 Gorffennaf 2019.**

**42** **CAIS RHIF: P/2019/0263 - NANT SILYN, PONT WEN, PARC PARK, WRECSAM**

Siaradodd asiant yr ymgeisydd o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**43** **CAIS RHIF: P/2019/0267 - 2 WESTMINSTER VILLAS, FFORDD YR WYDDGRUG, GWERSYLLT, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**44** **CAIS RHIF: P/2019/0355 – TIR I'R GORLLEWIN O EVERSLEY COURT, Y MWYNGLAWDD, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**45** **CAIS RHIF: P/2019/0380 – SAFLE'R HEN HOPE VIEW, HAND LANE, PONCIAU, WRECSAM**

**PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/12/19.**

**46** **RHESTR O BENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG A GYHOEDDWYD**

**PENDERFYNWYD - Nodi'r Rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig.**

Y Cynghorydd M G Morris
Cadeirydd